



STRWYTHURAU SEFYDLIADOL A STATWS CYFREITHIOL

Canllaw byr i bartneriaethau bwyd



Ymchwil a thestun gan Sarah Davies a Ben Messer, Food Matters

Tachwedd 2017

Cynnwys

1	Cyflwyniad	3
2	Opsiwn 1 – Cymdeithas Anghorfforedig	3
2.1	Manteision	3
2.2	Anfanteision	3
2.3	Rhesymau dros ei ddewis	3
2.4	Profiad partneriaethau bwyd	3
3	Opsiwn 2 – Troi'n Sefydliad Corfforedig	4
3.1	Strwythurau cyfreithiol – sefydliadau corfforedig	4
4	Cwmnïau Atebolrwydd Cyfyngedig	4
4.1	Manteision	5
4.2	Anfanteision	5
4.3	Rhesymau dros ei ddewis	5
4.4	Profiad partneriaethau bwyd	5
5	Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus (IPs)	6
5.1	Manteision	6
5.2	Anfanteision	6
5.3	Profiad partneriaethau bwyd	6
6	Cwmnïau Buddiannau Cymunedol (CICs)	7
6.1	Manteision	7
6.2	Anfanteision	7
6.3	Rhesymau dros ei ddewis	8
6.4	Profiad partneriaethau bwyd	8
7	Elusennau	8
7.1	Manteision	8
7.2	Anfanteision	9
7.3	Profiad partneriaethau bwyd	9
8	Sefydliad Corfforedig Elusennol	9
8.1	Manteision	9
8.2	Anfanteision	10
8.3	Rhesymau dros ei ddewis	10
8.4	Profiad partneriaethau bwyd	10

1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r hyn rydym yn ei ddeall am y gwahanol fathau o strwythur sefydliadol a statws cyfreithiol. Fodd bynnag, nid ydym yn arbenigwyr yn y maes hwn ac os bydd partneriaeth fwyd yn ystyried mabwysiadu strwythur penodol, rydym yn argymhell y dylai ofyn am gyngor proffesiynol cyn gweithredu er mwyn sicrhau ei bod yn llwyr ymwybodol o'r gofynion, cyfrifoldebau a chyfyngiadau.

2 Opsiwn 1 – Cymdeithas Anghorfforedig

Mae cymdeithas anghorfforedig yn sefydliad aelodaeth a dyma'r math o sefydliad sydd fwyaf cyffredin yn y sector gwirfoddol. Gall fod ar ba ffurf bynnag y mae ei haelodau yn ei phenderfynu a chaiff gyflawni pa weithgarwch bynnag y mae'r aelodau'n ei ddewis.

2.1 Manteision

Syml a chyflym: Dyma'r ffordd hawsaf a rhataf, ac felly'r ffordd gyflymaf, i sefydlu grŵp.

Y gofynion am adrodd yn fach: Mae rhwymedigaeth gyfyngedig i adrodd ar weithgareddau, dim ond yr hyn sy'n ofynnol yn eich dogfen lywodraethu / cyfansoddiad neu rwymedigaethau cyllid.

Statws elusen: Gall fod yn elusen.

2.2 Anfanteision

Atebolrwydd llawn: Nid oes hunaniaeth gyfreithiol gan sefydliadau anghorfforedig sydd ar wahân i'w haelodau unigol. Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn atebol am holl weithredoedd y sefydliad.

Diffyg statws cyfreithiol: Nid yw'n gallu gwneud cytundebau cyfreithiol / contractau na dal eiddo neu asedau eraill drwy ei hawl ei hun.

Cyfyngiadau ar gyllid: Mae'n bosibl y bydd rhai mathau o gyllid, incwm grant a chontractau na fyddant ar gael i sefydliadau anghorfforedig.

2.3 Rhesymau dros ei ddewis

Dewiswch yr opsiwn hwn ar gyfer eich partneriaeth fwyd:

- os na fydd yn berchen ar eiddo sylweddol
- os na fydd yn cyflogi staff
- os bydd ei hincwm yn gymharol sicr
- os na fydd yn cyflawni gweithgareddau sy'n creu risg neu faich ariannol
- os yw am fod yn sefydliad aelodaeth.

2.4 Profiad partneriaethau bwyd

Mae Rhwydwaith Bwyd Wells a Cambridge Sustainable Food wedi'u sefydlu ar ffurf cymdeithas anghorfforedig (er bod hyn yn debygol o newid cyn hir). Mae llawer o bartneriaethau bwyd

annibynnol yn dechrau ar ffurf cymdeithas anghorfforedig, er mai ychydig ohonynt sy'n parhau felly: byddant yn newid er mwyn amddiffyn eu haelodau rhag atebolrwydd yn bennaf, ac er mwyn gallu cael mynediad at gyllid.

3 Opsiwn 2 – Troi'n Sefydliad Corfforedig

Mae sefydliadau corfforedig (cwmnïau, cymdeithasau diwydiannol a darbodus (IPs), cwmnïau buddiannau cymunedol (CICs) a sefydliadau corfforedig elusenol (CIOs) yn sefydliadau sydd â hunaniaeth gyfreithiol ar wahân ac maent yn endidau drwy eu hawl eu hunain, yn annibynnol ar eu haelodau. Mae atebolrwydd aelodau o gyrff corfforedig wedi'i gyfyngu i'r swm y maent wedi'i fuddsoddi (mewn cwmnïau cyfyngedig drwy gyfranddaliadau, a chymdeithasau diwydiannol a darbodus) neu ei warantu (cwmnïau cyfyngedig drwy warant) i'w dalu i gredydwyr os bydd y sefydliad yn mynd i drafferthion ariannol.

Os yw sefydliad yn datblygu gweithgareddau masnachu sy'n ei wneud yn agored i risgiau ac atebolrwydd ychwanegol, dylai roi ystyriaeth o ddirif i ddod yn sefydliad corfforedig, fel ffordd i gyfyngu'r atebolrwydd hwnnw i raddau derbyniol.

3.1 Strwythurau cyfreithiol – sefydliadau corfforedig

Gall sefydliadau corfforedig fod ar y ffurfiau canlynol:

- Cwmni atebolrwydd cyfyngedig (Cwmni Cyfyngedig drwy Warant neu Gwmni Cyfyngedig drwy Gyfranddaliadau)
- Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus (IPS)
- Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC)
- Elusen
- Sefydliad Corfforedig Elusenol.

4 Cwmnïau Atebolrwydd Cyfyngedig

Mae dau fath o gwmni cyfyngedig. Mae cwmni cyfyngedig drwy warant yn strwythur dosbarthu nid-er-elw. Yn aml, bydd y rhain yn elusennau neu'n gymdeithasau masnach hefyd. Gall cwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau fod un ai'n gwmni preifat, sef y math mwyaf cyffredin, neu'n gwmni cyfyngedig cyhoeddus (ccc), sy'n gallu cynnig gyfranddaliadau i'r cyhoedd.

Prif nodwedd cwmnïau atebolrwydd cyfyngedig yw eu bod yn endid cyfreithiol ar wahân; felly, y cwmni, yn hytrach nag unigolion, sy'n gyfrifol am ddyledion. Strwythur dwy haen sydd gan y cwmnïau hyn, sef bwrdd o gyfarwyddwyr etholedig ac aelodau. Mae atebolrwydd yr aelodau'n gyfyngedig, sy'n golygu eu bod yn gwarantu rhoi swm o arian (£1 fel arfer) at gyllid y cwmni os bydd y sefydliad yn cael ei ddirwyn i ben.

Rhaid i bob cwmni atebolrwydd cyfyngedig fod ag Erthyglau Cymdeithasu. Y rhain sy'n gosod y rheolau y mae'n rhaid i swyddogion y cwmni eu dilyn wrth redeg eu cwmnïau. [Erthyglau 'enghreifftiol'](#) yw'r erthyglau diodyn safonol y caiff cwmni eu defnyddio.

Mae'r erthyglau'n cynnwys rhai sy'n diffinio pwerau a chyfrifoldebau cyfarwyddwyr, rhai sy'n gosod meini prawf aelodaeth, a rhai sy'n disgrifio sut y caiff y sefydliad ei redeg yn fewnol.

4.1 Manteision

Syml: Cymharol hawdd, a gweddol rad a chyflym fel arfer, yw dod yn gwmni atebolrwydd cyfyngedig.

Atebolrwydd: Am fod cwmnïau atebolrwydd cyfyngedig yn gorfod cofrestru eu cyfeiriad, ffeilio eu cyfansoddiad a chyhoeddi eu cyfrifon blynyddol, gallant ddangos eu bod yn atebol. Mae ganddynt fantais hefyd o fod â strwythur rheoli diffiniedig.

Benthyciadau / grantiau: Mae cwmnïau cyfyngedig yn cael eu cydnabod gan sefydliadau ariannol a'r rhan fwyaf o gyrrff cyllido, fel ei bod yn haws iddynt sicrhau benthyciad neu gael cyllid.

Atebolrwydd cyfyngedig: Ar gyfer aelodau'r sefydliad a'r corff llywodraethu.

Endid cyfreithiol: Gall wneud contractau, cymryd camau cyfreithiol a dal eiddo yn ei enw ei hun.

Statws elusen: Gall fod yn elusen.

4.2 Anfanteision

Drud: Gall cwmnïau atebolrwydd cyfyngedig fod yn ddrud i'w rhedeg. Rhaid paratoi cyfrifon blynyddol a'u cofrestru bob blwyddyn, ac os bydd y sefydliad yn ennill mwy nag £1 miliwn (£250,000 yn achos cwmni elusennol), rhaid i'r cyfrifon gael eu harchwilio. Bydd rhai cwmnïau'n dewis cael archwilio eu cyfrifon hyd yn oed os ydynt yn ennill llai na hyn, er mwyn rhoi tawelwch meddwl i'w cefnogwyr.

Mwy o reoleiddio: Rhaid ffeilio newidiadau yn y cyfansoddiad neu newid o ran y cyfarwyddwyr gyda Tŷ'r Cwmnïau o fewn 14 diwrnod.

Dirwyn i ben: Mae hon yn broses ffurfiol.

Talu cyfarwyddwyr: Os yw cyfarwyddwyr y cwmni'n cael eu talu, gall fod yn anodd cael cyllid grant.

4.3 Rhesymau dros ei ddewis

Dewiswch yr opsiwn hwn ar gyfer eich partneriaeth fwyd:

- os yw'n cyflogi neu'n disgwyl cyflogi staff
- os yw'n berchen neu'n disgwyl bod yn berchen ar dir, adeiladau, buddsoddiadau neu asedau sylweddol eraill
- os yw'n ymwneud neu'n disgwyl ymwneud ag asedau, lesedd neu contractau lle mae risg ariannol
- os yw'n ei chael yn anodd recriwtio aelodau i'r corff llywodraethu am eu bod am gael yr amddiffyniad rhag atebolrwydd personol sy'n dod drwy gorffori.

4.4 Profiad partneriaethau bwyd

Mae nifer o bartneriaethau bwyd sydd â strwythur o'r math hwn ar hyn o bryd, yn cynnwys: Partneriaeth Fwyd Brighton a Hove (Cwmni Cyfyngedig drwy Warant, nid er elw); Partneriaeth Fwyd Lambeth (Cwmni Cyfyngedig drwy Warant, nid er elw); Liverpool Food People (Cwmni Cyfyngedig drwy Warant, nid er elw).

5 Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus (IPSs)

Mae dau fath o gymdeithas y gellir eu cofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965.

Cymdeithas budd cymunedol: rhaid i'r busnes gael ei redeg er budd y gymuned ac nid er budd aelodau'r grŵp. Er mwyn cofrestru, rhaid i'r grŵp ddangos pam mae am fod yn gymdeithas, ac nid yn gwmni. Gwneir hyn fel arfer drwy ddangos nad yw buddion y busnes yn dod i'w aelodau, ond i'r gymuned. Nid yw'n ofynnol bod aelodaeth agored gan gymdeithasau budd cymunedol, ond fe fydd strwythur o'r fath ganddynt yn aml. Ni chaiff elw ei ddsbarthu rhwng yr aelodau, ond ei ddychwelyd i'r gymuned.

Cymdeithas gydweithredol: caiff ei sefydlu i gynnal busnes drwy gyfranogi gan aelodau er budd i'w gilydd. Rhaid seilio rheolau'r sefydliad ar egwyddorion gweithredu cymdeithasau cydweithredol, sydd wedi'u datgan yn 'International Co-operative Alliance – Statement on the Co-operative Identity'. Mae cymdeithasau cydweithredol yn cael eu cydberchenogi a'u rhedeg yn ddemocrataidd; rhaid iddynt fod â pholisi aelodaeth agored.

Mae nifer o nodweddion yn gyffredin i gymdeithasau a chwmnïau. Er enghraifft, mae atebolrwydd yr aelodau yn gyfyngedig a gallant ddal cyfranddaliadau, ac mae cyfansoddiad (set o reolau ysgrifenedig) a bwrdd cyfarwyddwyr etholedig.

Un gwahaniaeth mawr yw bod cymdeithasau'n cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA), nid gan y Cofrestrydd Cwmnïau. Rôl yr FSA yw sicrhau bod cymdeithasau'n cydymffurfio â'r Ddeddf bob amser, felly rhaid cael cymeradwyaeth gan yr FSA i unrhyw newidiadau yn y cyfansoddiad.

5.1 Manteision

Democrataidd: Mae IPSs yn sefydliadau democrataidd; maent yn cael eu rhedeg a'u rheoli gan eu haelodau. Gall IPSs gynnig cymhellion i gymryd rhan fel aelodaeth weithredol neu, os yw'n briodol, dosbarthu elw.

Gallant ddyroddi cyfranddaliadau: Gall strwythur yr IPS fod yn addas ar gyfer mentrau cymdeithasol a sefydliadau nid-er-elw. Am fod IPSs, a chymdeithasau budd cymunedol yn benodol, yn gallu dyroddi cyfranddaliadau i'r cyhoedd, gall hyn fod yn ffordd dda i godi symiau sylweddol o arian i sefydliadau o'r fath.

5.2 Anfanteision

Yn ddrud i'w cofrestru: Gall fod yn ddrud cofrestru i fod yn gymdeithas ddiwydiannol a darbodus. Y ffi gofrestru ar gyfer set newydd o reolau fydd £950. Bydd yn llai drud cofrestru gyda set o reolau enghreifftiol – codir ffi o £40 ar gymdeithas sy'n cofrestru gyda set o reolau enghreifftiol a gafodd gan sefydliad arall; bydd y ffi hon yn cynyddu am bob newid yn y set o reolau enghreifftiol.

5.3 Profiad partneriaethau bwyd

Hyd y gwyddom, nid oes partneriaethau bwyd yn y Rhwydwaith SFP sydd wedi mabwysiadu'r strwythur hwn er bod Asiantaeth Datblygu Cydweithredol Greenwich, sydd yn gartref i Good Food Greenwich, yn Gymdeithas Budd Cymunedol.

www.sustainablefoodplaces.org | *Strwythurau Sefydliadol a Statws Cyfreithiol* | Tachwedd 2017

6 Cwmnïau Buddiannau Cymunedol (CICs)

Sefydlwyd strwythur y Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC) o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 i ddarparu dewis hyblyg yn lle elusennau a chymdeithasau diwydiannol a darbodus. Mae strwythur y CIC wedi'i fwriadu ar gyfer mentrau cymdeithasol sydd am ddefnyddio eu helw a'u hasedau er budd y cyhoedd. Mae CICs i fod yn hawdd eu sefydlu, gyda'r holl hyblygrwydd a sicrwydd sy'n gysylltiedig â strwythur cwmni, ond gyda rhai nodweddion ychwanegol i sicrhau eu bod yn gweithio er budd y gymuned. Caiff CIC ei gofrestru gyda Tŷ'r Cwmnïau fel cwmni cyfyngedig drwy warant neu drwy gyfranddaliadau yn yr un ffordd â strwythurau corfforedig, ond mae dau wahaniaeth pwysig:

1. Mae ganddo glo asedau, sy'n golygu mai dim ond i gwmni buddiannau cymunedol neu elusen benodol y gellir dosbarthu ei asedau – nid i aelodau na buddsoddwyr
2. Rhaid iddo fodloni'r prawf budd cymunedol, i ddangos y bydd gweithgareddau'r cwmni er budd y gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

Mae CICs yn wahanol i gwmnïau elusennol gan fod modd eu sefydlu i gyflawni unrhyw ddiben sydd er budd y gymuned: rhaid i elusennau gyflawni dibenion elusennol yn unig. Fel cwmnïau cyfyngedig eraill, gellir talu cyfarwyddwyr y CIC. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhai cyrff cyllido yn dewis peidio ag ariannu sefydliadau lle mae'r cyfarwyddwyr yn derbyn tâl.

6.1 Manteision

Gellir eu sefydlu'n rhwydd: Gellir sefydlu CICs yn rhwydd, yn gyflym a heb fynd i gostau mawr.

Hunaniaeth gyfreithiol: Gall wneud contractau, cymryd camau gyfreithiol a dal eiddo yn ei enw ei hun.

Atebolrwydd cyfyngedig: Ar gyfer aelodau'r sefydliad a'r corff llywodraethu.

Mae'n gallu talu aelodau'r corff llywodraethu.

Clo asedau: Mae'n diogelu asedau i'r gymuned.

Enw da: Rheoleiddio ychwanegol gan y corff rheoleiddio CICs ac mae'r strwythur yn dangos ei fod yn fenter gymdeithasol.

6.2 Anfanteision

Rhai costau: Ffi am gofrestru, ffi ffeilio flynyddol. Mae'r gwaith papur yn cynnwys cadw cofrestrau a gwneud datganiadau blynyddol i Tŷ'r Cwmnïau.

Cyfyngiadau ar atebolrwydd cyfyngedig: Mae aelodau'r corff llywodraethu yn bersonol atebol am dalu dirwyon a gweithredu y tu hwnt i'w pwerau, fel y gall y cwmni barhau os yw'n ansolfent.

Rhaid talu trethi: Rhaid talu treth ar elw, rhaid talu treth stamp, dim Cymorth Rhodd, a dim rhyddhad ardrethi gorfodol.

Rhai cyfyngiadau ar gyllido: Mae'n bosibl na fydd rhai cyrff cyllido am ariannu CICs.

Statws elusen: Ni all CIC fod yn elusen.

Gofynion am adrodd: Mae'r amodau ar adrodd yn fwy beichus na'r rheini sydd ar sefydliadau corfforedig arferol, ond yn llai beichus na'r rheini sydd ar elusennau.

www.sustainablefoodplaces.org | *Strwythurau Sefydliadol a Statws Cyfreithiol* | Tachwedd 2017

6.3 Rhesymau dros ei ddewis

Dewiswch yr opsiwn hwn ar gyfer eich partneriaeth fwyd:

- os yw am ddangos yn glir ei bod yn sefydliad nid-er-elw a'i bod yn gweithio dros y gymuned (a'i galw ei hun yn fenter gymdeithasol fel arfer)
- os yw'n cyflogi neu'n disgwyl cyflogi staff
- os yw'n berchen neu'n disgwyl bod yn berchen ar dir, adeiladau, buddsoddiadau neu asedau sylweddol eraill
- os yw'n ymwneud neu'n disgwyl ymwneud ag asedau, lesioedd neu gcontractau lle mae risg ariannol a'i bod am gadw ei hasedau er budd y gymuned
- os yw am dalu neu am allu talu aelodau'r corff llywodraethu
- os yw'n ei chael yn anodd recriwtio aelodau i'r corff llywodraethu am eu bod am gael yr amddiffyniad rhag atebolrwydd personol sy'n dod drwy gorffori.

6.4 Profiad partneriaethau bwyd

Rhai partneriaethau bwyd sydd wedi mabwysiadu'r strwythur hwn yw CIC Bristol Food Network a CIC Food Plymouth.

7 Elusennau

Mae elusen yn sefydliad sydd:

- yn cyflawni diben elusennol yn unig (yn ôl y gyfraith)
- yn bodoli er budd y cyhoedd (yn ôl y gyfraith)

Y gyfraith sy'n pennu a yw sefydliad yn elusen. Os yw nodau'ch partneriaeth fwyd yn rhai elusennol yn unig a'i bod yn bodoli er budd y cyhoedd, yna mae'n elusen yng ngolwg y gyfraith. Y cwbl a wneir wrth gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau yw troi elusen anghofrestredig yn elusen gofrestredig.

Mae dibenion elusennol yn perthyn i 13 o gategoriâu cyffredinol. Bydd nodau neu ddibenion yr elusen, sydd wedi'u dangos yn ei chyfansoddiad, yn dod o dan un o'r categorïau hyn. Maent yn cynnwys: atal neu liniaru tlodi; hyrwyddo addysg; hyrwyddo iechyd; hyrwyddo dinasyddiaeth neu ddatblygu cymunedol; cymryd camau i ddiogelu neu wella'r amgylchedd. Mae'r Comisiwn Elusennau yn darparu [enghreifftiau o nodau elusennol](#). Mae nifer o wahanol fathau o sefydliad yn gallu dod yn elusen: cymdeithas anghorfforedig, ymddiriedolaeth, sefydliad corfforedig elusennol, cwmni cyfyngedig drwy warant, cwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau.

7.1 Manteision

Manteision ariannol: Mae elusennau'n gallu ei chael yn haws sicrhau cyllid grant. Bydd elusennau'n cael rhyddhad treth ar elw sy'n cael ei neilltuo i ddibenion yr elusen. Rhaid bod yr elw hwn wedi cael ei wneud wrth gyflawni prif ddiben yr elusen. Ni fydd elusennau'n talu treth ar log banc, ni fyddant yn talu treth stamp, a byddant yn cael rhyddhad treth ar roddion, drwy Cymorth Rhodd er enghraifft. Mae elusennau hefyd yn cael gostyngiad o 80% mewn ardrethi busnes ar yr eiddo y mae'n ei ddefnyddio i wneud busnes.

7.2 Anfanteision

Yn ddrud ac yn cymryd amser: Gall y broses o ymgeisio i gofrestru'n elusen fod yn un hir a chostus os bydd angen i'r grŵp gael cyngor proffesiynol ar y broses cofrestru.

Adrodd ac archwilio ychwanegol: Unwaith y bydd wedi'i sefydlu, rhaid i'r elusen ffeilio adroddiadau blynyddol, cyfrifon a datganiad blynyddol. Os yw incwm blynyddol gros yr elusen yn £25,000 neu'n fwy, rhaid i'r cyfrifon gael eu harchwilio gan rywun annibynnol. Gall hyn ychwanegu at y costau am ffeilio'r datganiad blynyddol.

Cyfyngiadau ar waith ymgyrchu: Mae'r rheoliadau ar gyfer elusennau yn cyfyngu ar eu gallu i gymryd rhan mewn gwaith gwleidyddol neu ymgyrchu.

7.3 Profiad partneriaethau bwyd

Mae nifer o bartneriaethau bwyd Rhwydwaith SFP wedi gwneud cais i'r Comisiwn Elusennau am ddod yn elusen ond wedi cael eu gwrthod. Y rheswm dros eu gwrthod yw bod eu nodau'n cynnwys hyrwyddo busnesau bwyd lleol ac nid yw hyn yn cael ei ystyried yn nod elusennol. Nawr mae rhai partneriaethau bwyd yn ceisio cysoni eu gwaith â'r nodau a bennwyd gan y Comisiwn Elusennau ar gyfer elusennau sy'n gweithio ym maes datblygu cynaliadwy, gan roi pwyslais ar hyrwyddo 'systemau bwyd cynaliadwy' yn hytrach na 'systemau bwyd lleol'. Nid yw'r un ohonynt wedi sicrhau statws elusen eto ond fe all hyn newid.

8 Sefydliad Corfforedig Elusennol

Mae sefydliad corfforedig elusennol yn strwythur newydd a grëwyd yn 2013. Mae'n sefydliad corfforedig, felly mae ganddo hunaniaeth gyfreithiol ar wahân i'w aelodau. Gall fod yn sefydliad aelodaeth neu gael ei lywodraethu gan grŵp bach. Mae'n elusen sydd wedi cael ei chorffori, felly mae'n cael ei chydnabod yn endid cyfreithiol o dan y gyfraith. Mae dau fath gwahanol o sefydliad corfforedig elusennol:

- Mae Sefydliad Corfforedig Elusennol Cyswllt yn addas ar gyfer grwpiau sydd ag aelodaeth ehangach sydd â hawliau pleidleisio
- Mae Sefydliad Corfforedig Elusennol Sylfaen yn cael ei redeg gan ei ymddiriedolwyr yn unig ac nid oes ganddo aelodau sy'n pleidleisio.

Mae cyfansoddiad enghrefftiol ar gael gan y Comisiwn Elusennau.

8.1 Manteision

Yn syml ac yn ddi-dâl: Mae sefydliadau newydd sydd am ddod yn sefydliad corfforedig elusennol yn gallu cofrestru drwy broses gymharol syml yn rhad ac am ddim. Nid oes dirwyon am gyflwyno dogfennau'n hwyr i'r Comisiwn Elusennau.

Hunaniaeth gyfreithiol: Gall wneud contractau ac ysgwyddo dyledion a rhwymedigaethau drwy ei hawl ei hun. Gall brynu a lesio eiddo a chyflogi pobl.

Atebolrwydd cyfyngedig: Mae rhywfaint o amddiffyniad i ymddiriedolwyr, am fod eu hatebolrwydd yn gyfyngedig, a bydd unrhyw hawliadau'n cael eu gwneud yn erbyn y sefydliad corfforedig elusennol yn hytrach na'r ymddiriedolwyr fel unigolion.

Cael eich cydnabod: Am eich bod yn elusen, bydd y cyhoedd yn dod i wybod amdanoch chi.

Cyllido: Mae rhai cyrff cyllido yn rhoi grantiau i elusennau cofrestredig yn unig.

Cyfrifyddu syml: Os yw incwm y sefydliad corfforedig elusennol yn llai na £250,000, bydd ei gyfrifon yn symlach a'r ffioedd cyfrifyddu yn llai o ganlyniad i hynny.

Dim angen am aelodau: Mae strwythur y sefydliad corfforedig elusennol ar gael i sefydliadau sydd heb aelodau. (Ar y llaw arall, mae cwmnïau elusennol yn gorfod cael strwythur aelodaeth.)

8.2 Anfanteision

Yn anodd cael benthyciadau: Gall fod yn anodd cael benthyciadau gan fanciau oherwydd, yn wahanol i gwmnïau elusennol, nid oes angen i sefydliad corfforedig elusennol gadw cofnod cyhoeddus o'i rwymedigaethau.

Gallai orfod cau: Os bydd sefydliad corfforedig elusennol yn peidio â bod yn elusennol, o dan feini prawf y Comisiwn Elusennau bydd yn peidio â bodoli a bydd yn gorfod cau, yn wahanol i gwmni elusennol a fyddai'n parhau'n gwmni anelusennol hyd yn oed os oedd yn colli ei gofrestrriad fel elusen.

Cyfyngiadau ar weithgareddau gwleidyddol ac ymgyrchu: Mae pob elusen yn gorfod cydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau ar weithgareddau gwleidyddol ac ymgyrchu.

Adrodd: Mae angen cyflwyno adroddiad a chyfrifon blynyddol i'r Comisiwn Elusennau beth bynnag yw maint ei incwm.

8.3 Rhesymau dros ei ddewis

Dewiswch yr opsiwn hwn ar gyfer eich partneriaeth fwyd:

- os yw'n cyflogi neu'n disgwyl cyflogi staff
- os yw'n berchen neu'n disgwyl bod yn berchen ar dir, adeiladau, buddsoddiadau neu asedau sylweddol eraill
- os yw'n ymwneud neu'n disgwyl ymwneud ag asedau, lesioedd neu gcontractau lle mae risg ariannol
- os yw'n ei chael yn anodd recriwtio aelodau i'r corff llywodraethu am eu bod am gael yr amddiffyniad rhag atebolrwydd personol sy'n dod drwy gorffori
- os yw am gael ei chofrestru a'i rheoleiddio gan un corff rheoleiddio yn unig, sef y Comisiwn Elusennau

8.4 Profiad partneriaethau bwyd

Mae Partneriaeth Fwyd Brighton a Hove wrthi'n ymgeisio i ddod yn sefydliad corfforedig elusennol.